HAWDD EI DDEALL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Newidiadau i ofal a chymorth yng Nghymru

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**.

Mae'n fersiwn **hawdd ei deall** o'r ddogfen ymgynghori **Y 'Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth'**.

**Mai 2023**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| 1. Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru | 4 |
| 2. Tâl a dilyniant | 10 |
| 3. Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth | 15 |
| 4. Cod Ymarfer Rhan 2 | 23 |
| 5. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol | 27 |
| 6. Adroddiadau blynyddol | 32 |
| 7. Asesiadau Effaith Integredig | 35 |
| 8. Cwestiynau cyffredinol | 37 |
| Geiriau anodd | 41 |


**Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:** www.photosymbols.com/


OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47038, ISBN digidol 978-1-80535-828-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma




Dyma ddogfen hawdd ei deall gyda chwestiynau. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 20**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:




E-bost: dyfodolgofalcymdeithasol@llyw.cymru

Mae'r ddogfen wedi cael ei hysgrifennu gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** a'i chynllunio gan Lywodraeth Cymru. Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei deall yma.

# Cyflwyniad

Rydyn ni eisiau gwneud rhai newidiadau i sut mae gofal a chymorth yn cael ei reoli yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein syniadau ar gyfer y newidiadau yma.

Mae'r newidiadau am bethau fel:

- Gwneud rheolau am sut mae gwasanaethau gofal yn cael eu cynllunio a'u darparu.
- Cael Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yng Nghymru.
- Newid cynlluniau ar gyfer sut mae gofal a chymorth yn cael ei redeg mewn ardaloedd lleol ar draws Cymru.




Mae'r gwaith yma yn parhau ymlaen o waith arall rydyn ni wedi ei ddechrau yn 2021. Yn 2021 fe wnaethon ni ofyn beth roedd pobl yn feddwl am bapur roedden ni wedi ei ysgrifennu o'r enw **Ailgydbwyso Gofal a Chymorth**.




Rydych chi'n gallu darllen mwy am hyn yma: Gwella gofal a chymorth – Cydweithio ar gyfer gwasanaethau gofal gwell i bobl yng Nghymru (llyw.cymru)

Darllenwch drwy bob adran o'r ddogfen yma, ac atebwch y cwestiynau sy'n mynd gyda phob adran.

**Anfonwch eich atebion inni erbyn 14 Awst 2023.**



Rydych chi’n gallu ymateb drwy:

- Ein ffurflen ar-lein

- Lawrlwytho ac **e-bostio** eich ffurflen i: dyfodolgofalcymdeithasol@llyw.cymru



- Lawrlwytho a **phostio** eich ffurflen i:

Yr Is-adran Dyfodol ac Integreiddio
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

# 1. Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru



Rydyn ni eisiau gwneud rheolau ar gyfer sut mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu **comisiynu** yng Nghymru.

**Mae comisiynu yn meddwl sut mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu dylunio, eu trefnu, eu hariannu a'u rhedeg.**




Rydyn ni'n meddwl y dylai gwasanaethau gofal a chymorth edrych fwy fel hyn:

- Fe ddylen nhw gael eu trefnu mewn ffordd syml.
- Fe ddylen nhw ganolbwyntio ar ansawdd yn fwy nag ar gostau.
- Fe ddylen nhw reoli gwasanaethau yn well i stopio problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.
- Fe ddylai'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), Awdurdodau Lleol (cyngor) a sefydliadau gofal eraill weithio gyda'i gilydd fwy.
- Fe ddylen nhw feddwl fwy am beth maen nhw eisiau ei gyflawni.

Fe fyddai'r newidiadau yma yn dod yn rhan o God Ymarfer. Mae'r Cod Ymarfer yn cael ei wneud o dan ddeddf o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**.

Mae gennym ni Godau Ymarfer yn barod ar gyfer rhannau eraill o'r ddeddf, ond fe fydd yr un newydd yma yn dweud beth ydy'r rheolau ar gyfer sut mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu **comisiynu**.



**Cwestiynau 1**

Ydych chi'n meddwl y byddai'r safonau yma'n helpu i wneud yn siŵr bod gwasanaethau yng Nghymru yn cael eu rhedeg yn yr un ffordd?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 2**

Ydych chi'n meddwl y byddai'r safonau yma yn helpu i wella hawliau pobl sy'n derbyn gofal a chymorth?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 3**

Ydych chi'n meddwl y byddai'r safonau yma yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl sy'n derbyn gofal a chymorth yn cyflawni eu nodau?

- Ydy ☐
- Nac Ydy ☐
- Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 4**

Ydych chi'n meddwl y byddai'r safonau yma yn helpu i wneud yn siŵr bod gwasanaethau gofal a chymorth wedi eu seilio ar werth yn lle'r gost?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 5**

Ydych chi'n meddwl pe bai gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd fwy, fe fyddai gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu darparu'n well?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

| |
|---|
| |

# 2. Tâl a dilyniant

Pwrpas y syniadau yma yw gwneud yn siŵr bod staff gofal yn cael cyflog teg.

Hefyd, eu bod nhw yn cael cyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa.




Mae'r fframwaith tâl a dilyniant sydd wedi cael ei wneud wedi cael ei ddatblygu gan grŵp o'r enw'r **Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol**.

Mae'r grŵp yn cynnwys gwahanol bobl sydd â diddordeb mewn gofal cymdeithasol.



Mae yna fframwaith drafft sy'n edrych ar bethau fel:

- Lefelau gwahanol o swyddi ym maes gofal cymdeithasol.
- Sgiliau a gwerthoedd sydd eu hangen mewn gofal cymdeithasol.
- Yn y dyfodol fe fydd cynlluniau ar gyfer sut i gamu ymlaen mewn gyrfa ym maes gofal cymdeithasol.
- Yn y dyfodol fe fydd graddfeydd tâl ar gyfer swyddi ym maes gofal cymdeithasol.

Bwriad y fframwaith ydy gwneud gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn well ac yn fwy teg.

Rydyn ni'n gobeithio y bydd y fframwaith yn cyflawni pethau fel:

- Mwy o recriwtio o ran gofal cymdeithasol – mae hyn yn meddwl cael mwy o bobl i weithio ym maes gofal cymdeithasol.
- Helpu i ddatblygu sgiliau staff.
- Gwneud fframwaith syml i staff a chyflogwyr ei ddilyn.
- Dangos y gwerthoedd sydd gan staff gofal cymdeithasol.
- Darparu proses deg a chlir ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch tâl mewn gofal cymdeithasol.

Fe fydd y fframwaith yn wirfoddol fel bod sefydliadau yn gallu penderfynu ydyn nhw eisiau ei ddefnyddio neu beidio.



**Cwestiynau 6**

Mae'r fframwaith tâl a dilyniant eisiau hyrwyddo gwaith teg. Ydych chi'n meddwl y bydd yn gallu gwneud hyn?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



## Cwestiynau 7

Oes gennych chi unrhyw syniadau am ffordd o wella'r fframwaith yma?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 8**

Beth yn eich barn chi sydd yn gallu stopio'r fframwaith rhag gweithio?

Ysgrifenwnch beth rydych chi'n feddwl yn y blwch os gwelwch yn dda:

# 3. Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

**Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth** fyddai'n rheoli dyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru.




Fe fyddai gan y Swyddfa 3 prif beth i'w wneud:

- Gwneud yn siŵr bod y **Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth** yn cael ei ddilyn a'i ddiweddaru pan fydd angen.
- Datblygu **Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol**.
- Cefnogi'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn ei rôl.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fe fyddai'r Swyddfa yn rhan o Lywodraeth Cymru.

Fe fyddai'n gweithio gydag adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru.

Mae rhai manylion eraill yn dal i gael eu penderfynu.



**Cwestiynau 9**

Ydych chi'n cytuno gyda'r syniad o gael Swyddfa Genedlaethol?

Os na, beth fyddech chi yn ei gael yn lle?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 10**

Ydych chi'n cytuno gyda'r syniadau ar gyfer sut fyddai'r Swyddfa Genedlaethol yn cael ei rhedeg?

Os na, beth fyddech chi yn ei wneud yn wahanol?

| | |
|---|---|
| Ydy | ☐ |
| Nac Ydy | ☐ |
| Dim yn gwybod | ☐ |

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 11**

Ydych chi'n cytuno gyda'r syniadau ar gyfer beth fyddai'r Swyddfa Genedlaethol yn ei wneud?

Os na, beth fyddech chi yn ei wneud yn wahanol?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 12**

Ydych chi'n credu y byddai sefydlu hyn yn achosi gwaith ychwanegol does dim ei angen? Neu yn gwneud gwaith sydd yn cael ei wneud gan sefydliadau eraill yn barod?

Os ydych chi, sut fyddech chi'n trwsio hyn?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 13**

Sut ydych chi'n meddwl mae Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud yn siŵr bod sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynllunio a'u rhedeg yn y ffyrdd gorau?

Ysgrifenwnch beth rydych chi'n feddwl yn y blwch os gwelwch yn dda:

| |
|---|
| |



**Cwestiynau 14**

Sut ydych chi'n meddwl mae'r Swyddfa Genedlaethol yn gallu bod yn rôl model wrth gefnogi defnydd o'r Gymraeg?

Ysgrifenwnch beth rydych chi'n feddwl yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 15**

Beth mae'r Swyddfa Genedlaethol yn gallu ei wneud i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg?

Ysgrifenwnch beth rydych chi'n feddwl yn y blwch os gwelwch yn dda:

# 4. Cod Ymarfer Rhan 2

Rydyn ni eisiau gwneud rhai newidiadau i God Ymarfer arall o dan y **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** (y gyfraith).




Mae'r Cod Ymarfer yma yn cael ei alw yn Cod Ymarfer Rhan 2. Mae'n dweud beth sy'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud i wneud yn siŵr bod gan bobl y gofal a'r cymorth maen nhw ei angen.

Rydyn ni eisiau gwneud newidiadau fel bod y cyhoedd yn gallu cymryd mwy o ran.

Fe fyddai'r newidiadau'n meddwl bod mwy o ffocws ar wneud yn siŵr bod y cyhoedd yn rhan o'r broses o gynllunio gwasanaethau a chael dweud eu dweud.

Mae hyn hefyd yn cael ei alw yn **Gyd-gynhyrchu**.

Mae **cyd-gynhyrchu** yn meddwl bod gan aelodau'r cyhoedd ran gyfartal mewn dylunio gwasanaethau. A hefyd, wrth ddweud sut y dylen nhw gael eu rhedeg.



Fe ddylai pobl sydd yn aml heb lawer o gyfleoedd i ddweud eu dweud gael mwy o gyfleoedd.

Fe ddylai hyn ddigwydd drwy bob cam o'r broses gofal a chymorth.

Fe fyddai mwy o gyfle hefyd i **gyrff trydydd sector** a **mentrau cymdeithasol** redeg gwasanaethau.

Mae **cyrff trydydd sector** yn elusennau a chyrff cymunedol.

Mae **mentrau cymdeithasol** fel busnesau, ond mae'r arian sy'n cael ei wneud yn cael ei fuddsoddi yn ôl i'r busnes i wneud daioni.



**Cwestiynau 16**

Oes unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddweud am y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i'r Cod Ymarfer?

Oes unrhyw beth ar goll?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



## Cwestiynau 17

Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau yn helpu i'w gwneud hi'n fwy clir i Awdurdodau Lleol (cynghorau) gynnwys y cyhoedd?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

# 5. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei redeg gan y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae **cyrff trydydd sector** a chyrff preifat hefyd yn rhedeg gwasanaethau.



Mae **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** yn bobl o'r cyrff yma sy'n dod at ei gilydd i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn dda.

Mae **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** wedi datblygu llawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod hynny'n dal i ddigwydd, a gwneud eu rôl yn gryfach.

Rydyn ni'n meddwl bod angen iddyn nhw gael mwy o bŵer, fel eu bod nhw'n gallu gwneud mwy o newidiadau.

Rydyn ni eisiau newid beth maen nhw'n gyfrifol amdano.

Rydyn ni hefyd eisiau cynyddu'r mathau o sefydliadau sy'n gallu ymuno.
Er enghraifft:

- Rhywun o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.
- Rhywun o wasanaethau gofal sylfaenol. Er enghraifft, meddygfa, fferyllydd, deintydd.
- Rhywun o'r **Cyngor Gwirfoddol Sirol**. Mae hwn yn cefnogi **cyrff trydydd sector** ar draws ardaloedd yng Nghymru.



Rydyn ni hefyd yn credu y dylai recriwtio a chefnogi aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn well. Er enghraifft:

- Disgrifiadau clir o rôl pob aelod.
- Cynlluniau clir ar gyfer recriwtio aelodau sy'n cynrychioli pobl sydd angen gofal a chymorth.
- Help i'r rhai sy'n cynrychioli pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth.

Rydyn ni hefyd eisiau gwneud newidiadau i'r adroddiadau blynyddol y mae'r **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** yn eu hysgrifennu. Rydyn ni'n credu y dylai'r adroddiadau blynyddol:



- Dangos sut mae pobl wedi cymryd rhan.
- Dangos sut maen nhw wedi defnyddio **cyd-gynhyrchu**. Hefyd, sut mae hyn wedi helpu i wella llesiant.
- Siarad am eu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod a sut y byddan nhw yn cyflawni eu nodau.



**Cwestiynau 18**

Ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud?

A fyddech chi'n gwneud unrhyw beth yn wahanol?

- Ydy ☐
- Nac Ydy ☐
- Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 19**

Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll o beth rydyn ni wedi ei awgrymu?

Ac ydych chi'n meddwl bod modd gwella unrhyw beth?

Ydy ☐


Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:

# 6. Adroddiadau blynyddol

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddangos beth maen nhw'n ei gyflawni.




Mae'n rhaid iddyn nhw ddangos sut maen nhw'n gwella iechyd a llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth.

Er mwyn gwneud hyn yn dda, mae'n rhaid iddyn nhw ddilyn fframwaith o'r enw'r **Fframwaith Perfformiad a Gwella**.

Rhan o hyn ydy ysgrifennu Adroddiadau Blynyddol.

Mae'r rhain yn dangos y gwaith sy'n cael ei wneud, a beth sydd angen ei wella.

Rydyn ni'n credu y dylai'r pethau yma fod mewn adroddiadau blynyddol:

- Edrych ar beth sy'n cael ei wneud yn dda.
- Edrych ar beth sydd angen ei wella.
- Beth ydy'r cynlluniau i wneud gwelliannau.
- Y cynnydd sy'n cael ei wneud.



**Cwestiynau 20**

Ydych chi'n meddwl y bydd unrhyw anawsterau wrth ysgrifennu'r adroddiadau blynyddol yma?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 21**

Pa gymorth fyddai ei angen
i'w hysgrifennu?

Ysgrifenwnch beth rydych chi'n feddwl
yn y blwch os gwelwch yn dda:

# 7. Asesiadau Effaith Integredig

Rydyn ni eisiau gweld pa effeithiau mae pob un o'n syniadau yn gallu eu cael ar bobl Cymru.



Er mwyn gwneud hyn, rydyn ni wedi dechrau **Asesiad Effaith Integredig**. Dyma ffordd o weld sut mae ein penderfyniadau a'n gweithredoedd yn gallu effeithio ar wahanol grwpiau o bobl.

Rydyn ni eisiau gweld beth mae pobl yn ei feddwl o beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn.



**Cwestiynau 22**

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am yr **Asesiad Effaith Integredig** rydyn ni wedi dechrau.

A beth arall sydd angen i ni feddwl amdano wrth i ni gario ymlaen i weithio arno.

Ysgrifenwnch beth rydych chi'n feddwl yn y blwch os gwelwch yn dda:

# 8. Cwestiynau cyffredinol



**Cwestiynau 23**

Ydych chi'n meddwl y byddai unrhyw un o'n cynlluniau yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o gwbl?

Ydy ☐

Nac Ydy ☐

Dim yn gwybod ☐

Rhowch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych chi yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 24**

Sut rydyn ni'n gallu gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau'n cael effaith dda ar y defnydd o'r Gymraeg?

Ysgrifenwnch beth rydych chi'n feddwl yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 25**

Sut rydyn ni'n gallu gwneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal gyda'r iaith Saesneg yn y cynlluniau yma?

Ysgrifenwnch beth rydych chi'n feddwl yn y blwch os gwelwch yn dda:



**Cwestiynau 26**

Oes gennych chi unrhyw syniadau neu sylwadau eraill am unrhyw beth arall i'w wneud â'n syniadau ni?

Ydych chi eisiau ychwanegu unrhyw beth arall?

Ysgrifenwnch beth rydych chi'n feddwl yn y blwch os gwelwch yn dda:

# Geiriau anodd

## Comisiynu

Mae hyn yn meddwl sut mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu dylunio, eu trefnu, eu hariannu a'u rhedeg.

## Cyd-gynhyrchu

Mae hyn yn meddwl bod gan aelodau'r cyhoedd ran gyfartal mewn dylunio gwasanaethau. Hefyd, wrth ddweud sut y dylen nhw gael eu rhedeg.

## Mentrau cymdeithasol

Mae'r rhain fel busnesau, ond mae'r arian sydd yn cael ei wneud yn cael ei fuddsoddi yn ôl i'r busnes i wneud daioni.

## Cyrff trydydd sector

Elusennau a chyrff cymunedol ydy'r rhain.